




TAI YN GYNTAF: EGWYDDORION AR GYFER CYMRU



CEFNOGWYD GAN



YNGHYLCH RHWYDWAITH TAI YN GYNTAF CYMRU

Mae Rhwydwaith Tai yn Gyntaf Cymru yn grŵp eang o unigolion a sefydliadau a chanddynt ddiddordeb mewn datblygu Tai yn Gyntaf a'i weithredu ledled Cymru. Gyda chynrychiolaeth o'r trydydd sector, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, landlordiaid cymdeithasol, byrddau iechyd, a mwy, ei nod yw sicrhau cysondeb ynghyd â rhannu ymarfer gorau a gwybodaeth.

EGWYDDORION TAI YN GYNTAF

Datblygwyd yr egwyddorion hyn o ganlyniad i broses ymgynghori gydag ystod eang o randdeilaid. Mae'n adeiladu ar yr ymchwil a'r egwyddorion a ddaw o'r corff cynhwysfawr o dystiolaeth sy'n bodoli eisoes ledled y byd, yn ogystal â'r crynodeb o egwyddorion a osodir gan Homeless Link ar gyfer Lloegr. Nid oes unrhyw wahaniaethau o ran yr egwyddorion craidd a gynhwysir yn y ddogfen hon, ond gwnaed rhai ychwanegiadau penodol er mwyn egluro neu atgyfnerthu rhannau allweddol o'r model Tai yn Gyntaf.

PAM FOD YR EGWYDDORION HYN YN BODOLI?

Gyda Tai yn Gyntaf, rydym yn cael cyfle prin i fabwysiadu dull o weithio a werthuswyd yn rhyngwladol - dull sy'n gweithio gyda phobl nad ydynt wedi llwyddo i gael mynediad at y math traddodiadol o gymorth a gynigir gan y sector digartrefedd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig cefnogaeth eang a chyfeiriad strategol. I sicrhau bod y dulliau a ddefnyddir mor llwyddiannus ag y gallant fod, ac er mwyn cael yr effaith fwyaf bosibl ar y rhai sydd bellaf oddi wrth y maes tai, mae'n holl bwysig bod Tai yn Gyntaf yn cael ei ddeall mewn modd cyson. Mae'r ddogfen hon yn gosod allan yr egwyddorion allweddol hynny, y gellir eu defnyddio fel rhestr wirio i sefydlu pa mor "ffyddlon" yw unrhyw wasanaeth i'r model Tai yn Gyntaf.

SUT Y DYLWN I DDEFNYDDIO'R RHESTR WIRIO HON?

Pwrpas y rhestr wirio hon yw ei gwneud yn bosibl i gynnal hunan-asesiad o wasanaeth sy'n cael ei gynllunio (neu sy'n bodoli eisoes) er mwyn sefydlu i ba raddau y mae'n cwrdd â'r disgrifiad o Tai yn Gyntaf.

Yn dilyn trafodaethau ac ymgynghoriadau, nodwyd egwyddorion penodol fel rhai sy'n anhepgor i brosiectau Tai yn Gyntaf, gan y byddai unrhyw symudiad o'r egwyddorion hyn yn peryglu effeithiolrwydd y model. O ganlyniad, mae angen sgôr lawn o 3 ar gyfer yr egwyddorion hyn. Lle bo methiant i sgorio 3 yn golygu anghymarusrwydd gyda'r model Tai yn Gyntaf, mae'r disgrifiad wedi ei oroleuo mewn coch.

Mae gweddill yr egwyddorion yn fwy hyblyg, fel bod modd i sefydliadau barhau i gyfeirio at wasanaeth fel Tai yn Gyntaf tra byddant yn gweithio tuag at ffyddlondeb llawn. Mae angen i'r rhain gael sgôr o 2 neu fwy. Mae hefyd yn werth nodi bod ar rai egwyddorion angen cyfraddau is o ffyddlondeb, o ganlyniad i heriau penodol - rhai daeryddol, neu rai'n ymwneud â'r boblogaeth, er enghraifft y dewis o dai sydd ar gael mewn ardaloedd mwy gwledig.

Nid oes unrhyw isafswm sgôr cyffredinol, ond gall gwasanaeth sy'n cwrdd â'r holl feini prawf angenrheidiol, ac sy'n cael sgôr 2 ym mhob maes arall, gael ei alw'n wasanaeth Tai yn Gyntaf. Fodd bynnag, lle caiff sgoriau o 2 eu cyrraedd, mae yna'n amlwg feysydd lle gellid datblygu ffyddlondeb sy'n agosach at y model.

Nid yw gwasanaeth nad yw'n cymhwyso fel un Tai yn Gyntaf yn golygu ei fod yn wasanaeth gwael - dim ond na ddylid ei frandio fel gwasanaeth Tai yn Gyntaf. Mae yna lawer o wasanaethau positif, effeithiol a dylanwadol sy'n cwmpo y tu allan i'r categori hwn, ond mae'n bwysig bod unrhyw wasanaeth sy'n honni bod yn Tai yn Gyntaf yn cwrdd â'r meini prawf a amlinellir yn y ddogfen hon.



UNRHYW GWESTIYNAU?

If you have any questions about how to use this checklist, please contact the Housing First Wales Network secretariat at:



policy@cymorthcymru.org.uk

YR EGWYDDORION



Mae gan bobl hawl i gartref sy'n fforddiadwy, yn ddiogel, yn addas i fyw ynddo, yn dderbyniol yn gorfforol ac yn ddiwylliannol, ac yn un lle mae gwasanaethau ar gael (fel a nodir yng Nghyfamod y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol). Dylai'r cartref hefyd fod yn rhan o gymuned ac nid yn rhan o sefydliad.

-  0 - Er mwyn cael mynediad at lety, rhaid i unigolion ymrwymo i dderbyn triniaeth, neu ymrwymo i ffordd wahanol o fyw. Nid yw tai yn fforddiadwy, yn ddiogel, mewn cyflwr priodol i fyw ynddynt, nac yn ddigonol.
-  3 - Gall unigolion gael mynediad at lety beth bynnag fo eu hamgylchiadau, y cymorth a gânt, neu eu hymgysylltiad yn y gorffennol; mae tai yn fforddiadwy, yn addas, yn ddiogel, mewn cyflwr priodol i fyw ynddynt, ac yn ddigonoladequate.

Mae tai a chymorth yn cael eu gwahanu.


-  0 - Ychydig neu ddim gwahanu sydd rhwng tai a chymorth.
-  3 - Dylai cymorth a llety fod ar wahân. Nid yw mynediad at lety'n amodol ar ymgysylltiad ag unrhyw gymorth generig y gellid cael ei gynnig gan y landlord/y darparwr llety.

Caiff y gwasanaeth ei dargedu at unigolion sy'n dangos patrwm cyson o ddiffyg ymgysylltiad â llety mewn hostel, a/neu unigolyn/ion sy'n cael mynediad at gysgu ar y stryd neu at EOS (arhosiad dros nos mewn argyfwng) ar y pwynt lle gwneir yr atgyfeiriad.


-  0 - Mae'r gwasanaeth yn gallu eithrio ar sail cymhlethdod.
-  3 - Mae'r gwasanaeth yn nodi'r achosion mwyaf cymhleth ac yn gweithio gyda hwy.


Mae cymorth hyblyg yn cael ei ddarparu cyhyd ag y bo angen amdano.


 0 - Mae cymorth yn cael ei gyfyngu gan amser, ac y mae terfyn amser iddo.

 3 - Mae cymorth yn barhaus, heb gael ei gyfyngu gan amser, yn gallu cael ei raddoli i fyny ac i lawr, a gellir cael ail-fynediad ato pan fo angen.


Defnyddir dull o weithio sy'n ymgysylltu'n weithredol.


 0 - Mae gan unigolion restr fer am gymorth, neu mae'n rhaid iddynt gwrdd â meini prawf penodol, cyn y gallant ymgysylltu â'r prosiect Tai yn Gyntaf, ac os ydynt yn gwrthod ymgysylltu caiff y cynnig ei dynnu'n ôl.


 2 - Gall unigolion ymgysylltu pan fyddant yn dewis gwneud hynny, ond allgymorth cyfyngedig sydd ar gael i'w hannog ac i sicrhau bod y llwybrau at ymgysylltiad yn agored.


 3 - Cysylltir yn rheolaidd ag unigolion, ac ymgysylltir â hwy p'un ai a fydd cynnig Tai yn Gyntaf yn cael ei dderbyn ai peidio; mae'r ymgysylltiad yn digwydd heb yr amod bod raid i rywun gymryd rhan; mae'r gwasanaeth yn barod i symud yn gyflym os bydd yr unigolyn yn newid ei feddwl ac yn awyddus i ymgysylltu, er mwyn sicrhau bod "y ffenest cyfle" yn parhau ar agor.

Mae gan unigolion ddewis a rheolaeth.

 0 - Dyrennir un eiddo i unigolion heb elfen o ddewis; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn un ar drwydded.

 1 - Mae unigolion yn cael dewis eiddo, ond o fewn ardaloedd penodol, neu rhwng eiddo o ansawdd is; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn denantiaeth lawn.

 2 - Gall unigolion ddewis eiddo yn seiliedig ar ddewis rhydd allan o'r tai sydd ar gael; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn denantiaeth lawn.

 3 - Gall unigolion ddewis eiddo ar draws pob deiliadaeth, a gallant ofyn am gael ystyried eiddo penodol yn y Sector Rhentu Preifat / a gynigir gan y darparwr Tai yn Gyntaf; mae'r ddeiliadaeth a gynigir yn denantiaeth lawn.





Defnyddir dull o leihau niwed wrth ymdrin â chamddefnyddio sylweddau.

- 0 - Mae darparwyr yn cael eu rhwystro rhag cymryd unrhyw risg yn nhermau lleihau niwed, ac mae gweithgareddau sy'n lleihau niwed yn cael eu gwahardd mewn cytundebau naill ai gan gomisiynwyr neu gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
- 1 - Gall darparwyr gymryd agwedd o leihau niwed, ond ni allant sicrhau bod y cymorth cywir yn ei le.
- 2 - Gall darparwyr sicrhau bod dull cyflawn o leihau niwed yn cael ei fabwysiadu, a gallant weithredu i sicrhau bod y dull gorau posibl yn cael ei roi ar waith heb ofni adborth negyddol oddi wrth landlordiaid.
- 3 - Gall darparwyr fabwysiadu dull priodol o leihau niwed gyda chefnogaeth agored a chymeradwyaeth o gyfeiriad yr holl randdeiliaid, yn cynnwys landlordiaid RSL / PRS, darparwyr, yr heddlu, y GIG, ac ati.





Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu mewn modd seicolegol-wybodus, trawma-wybodus a rhyw-wybodus, sy'n sensitif ac yn ymwybodol o nodweddion gwarchoddedig.


- 0 - Nid yw'r gwasanaeth yn cymryd i ystyriaeth hanes personol unigolion na'u hamgylchiadau, ac mae'r tîm comisiynu yn cyfyngu ar, neu'n gosod gosod meini prawf llym ar y ffordd y dylai darparwyr weithio.
- 1 - Mae'r gwasanaeth yn ymwybodol o hanes personol unigolion, neu eu hamgylchiadau, ond o ganlyniad mae'n gwneud dyfarniadau i "leihau risg", yn hytrach na gweithio i addasu i'r anghenion hynny.
- 2 - Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at hyfforddi ei staff a datblygu rhanddeiliaid partner, ac yn sicrhau bod pawb sydd ynghlwm â thaith unigolyn i Tai yn Gyntaf yn gwbl ymwybodol (lle bo angen) o drawma posibl a phrofiadau andwyol yr unigolyn.
- 3 - Mae staff y gwasanaeth a'r rhanddeiliaid partner wedi derbyn hyfforddiant ac yn ymwybodol o hanes personol, trawma a phrofiadau eu cleientiaid, ac yn gweithio i sicrhau bod eu rhyngweithiadau yn sensitif ac yn ymatebol i'r profiadau hynny.

Mae'r gwasanaeth yn seiliedig ar gryfderau, nodau a dyheadau pobl, ac oherwydd hynny mae ganddo ymrwymiad penodol i gynnal llwyth gwaith bychan.

-  0 - Mae yna ddull pendant o estyn cymorth a ddefnyddir ar gyfer pob unigolyn, waeth beth fo eu hanghenion penodol.
-  1 - Mae yna ymdrech i greu cymorth unigol, ond caiff gwasanaethau eu comisiynu ar sail y nifer o oriau, sy'n cyfyngu ar yr amser y gellir ei dreulio gyda phobl.
-  2 - Mae yna wasanaeth unigol wedi'i bersonoli, ond caiff ei weithredu mewn dull sy'n rhoi cymorth i unigolyn yn hytrach na gydag unigolyn.
- 3 - Mae yna ymrwymiad i gyd-gynhyrchu ac i gynnwys y defnyddiwr gwasanaeth, lle bo gan yr unigolyn gyfle i roi barn ar y gefnogaeth, ac awgrymu ym mha ddulliau y gallai gael ei gefnogi; mae comisiynu ar lefel leol yn hyblyg, gyda gwasanaethau Tai yn Gyntaf yn monitro ac yn adrodd yn ôl i ganiatáu hyn.
- 

Mae'r ystod ehangaf o wasanaethau yn cael eu cynnwys o'r cychwyn cyntaf (iechyd, camddefnyddio sylweddau, iechyd meddwl, yr heddlu), fel bod unigolion yn gallu cael mynediad atynt os oes arnynt eu hangen neu eu heisiau.

-  0 - Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu gan yr adran tai heb unrhyw gyfraniad nac elfen o brynu-i-mewn gan wasanaethau eraill; caiff y gwasanaeth ei redeg gydag ychydig iawn o gyfraniad, neu ddim o gwbl, gan asiantaethau eraill.
-  1 - Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu gyda chyfraniad cyfyngedig a / neu hwyr gan wasanaethau eraill, ac nid oes gan y gwasanaeth unrhyw gynllun i redeg gyda chyfraniad gan asiantaethau eraill.
-  2 - Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu gyda chynlluniau i gynnwys gwasanaethau eraill, ac mae yna gynllun ar waith i gynnwys y gwasanaethau hynny, ond ni rennir Memorandwm Cydddealltwriaeth (MoU) nac ymrwymadau cyfyngedig.
- 3 - Caiff y gwasanaeth ei gomisiynu i gynnwys dulliau partneriaeth llawn; mae'r holl randdeiliaid yn ymrwymo'n rheolaidd i adolygu'r systemau a pharhau i gefnogi unigolion; rhoddir gweithdrefnau cyfeirio "cynllun carlam" ar waith i wella mynediad at wasanaethau iechyd ac iechyd meddwl.
- 



**I HOLI YNGHYLCH TAI YN GYNTAF, CYSYLLTWCH AG:
POLICY@CYMORTHCYMRU.ORG.UK**